

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004 RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014**

#### **ARCHWILIO CYFRIFON:**

- (I) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (gan gynnwys Y Gronfa Bensiwn) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018/2019
- (II) Cyd-bwyllgor Amlogsgfa Llwydcoed ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018/2019
- (III) Cyd-bwyllgor Addysg Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018/2019

#### **RHYBUDD AM HAWLIAU CYHOEDDUS**

1. Mae hawl i bawb a chanddyn nhw ddiddordeb i archwilio a gwneud copiâu o gyfrifon:
  - (i) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (gan gynnwys Y Gronfa Bensiwn) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018/2019
  - (ii) Cyd-bwyllgor Amlogsgfa Llwydcoed ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018/2019
  - (iii) Cyd-bwyllgor Addysg Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018/2019

ynghyd â llyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n ymwneud â'r cyfrifon hynny yn: Isadran Cyfrifeg, Uwchadran Cyllid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tŷ Bronwydd, Y Porth, yn ystod y cyfnod rhwng 17 Mehefin a 12 Gorffennaf 2019, o ddydd Llun i ddydd Gwener bob wythnos rhwng 9:00am a 5:00pm.
2. Enw'r archwilydd yw Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ
3. Ar 15 Gorffennaf 2019 ac wedi hynny bydd gan etholwyr llywodraeth leol y cylch y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yr hawl i fynnu bod yr archwilydd yn rhoi cyfle iddyn nhw, neu gynrychiolydd iddyn nhw, i'w holi am y cyfrifon a'r hawl iddyn nhw neu'u cynrychiolydd i ymddangos gerbron yr archwilydd a chyflwyno gwrthwynebiad:
  - 3.1 ar y sail bod rhyw eitem neu'i gilydd o'r cyfrif yn groes i ofynion y gyfraith, neu
  - 3.2 parthed unrhyw fater sy'n dod i sylw'r archwilydd yn ystod ei archwiliad y byddai modd iddo lunio adroddiad ynglŷn ag e am y byddai hynny er budd y cyhoedd.
4. Fydd dim modd mynegi gwrthwynebiad er hynny oni bai fod yr archwilydd wedi derbyn rhybudd ohono a manylion sail y gŵyn. Bydd rhaid anfon copi o'r rhybudd o wrthwynebiad at Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar yr un adeg – i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi isod.

Dyddiad 3 Mehefin 2019

C Bradshaw

Prif Weithredwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, CF40 2XX